YSGOL MORGAN LLWYD

Ym mhob llafur y mae elw




Pecyn Athro / Athrawes

# Athro / Athrawes Dylunio a Thechnoleg

# Llythyr i'r Ymgeiswyr oddi wrth Gadeirydd y Corff  Llywodraethol

Annwyl Ymgeisydd

**Athro/ Athrawes cyffredinol: Ysgol Morgan Llwyd**

Rydym yn falch iawn eich bod wedi gofyn am ragor o wybodaeth am y penodiad allweddol yma yn Ysgol Morgan Llwyd.

Mae'r Corff Llywodraethol yn frwd dros addysg  a lles ein  disgyblion ac yn awyddus i barhau ar ein taith o welliant.  Rydym yn chwilio am berson gweithredol a brwdfrydig sy'n rhannu ein gweledigaeth:

*Mae Ysgol Morgan Llwyd yn gymuned falch, groesawgar sy'n an-gerddol dros allu pob unigolyn i gyflawni ei botensial a'i uchelgais, ac i ddatblygu i fod yn aelod hapus, hyderus, annibynnol a chyfrifol o'i gymdeithas.*

*Yma, mae pob unigolyn yn cyfrif. Dathlwn fod pob unigolyn yn unigryw a bod pawb yn cael eu hannog i ffynnu'n academaidd, yn greadigol ac yn bersonol mewn awyrgylch Cymraeg clòs, gofalgar a chefnogol. Does neb yn cael ei adael ar ôl.*

*"Ym mhob llafur mae elw". Ym Morgan Llwyd, cydweithiwn tuag at, a chyd-ddathlwn, ragoriaeth a llwyddiannau pob aelod o'n cymuned.*

Mawr obeithiwn y byddwch yn danfon cais atom fydd yn dangos eich bod yn awyddus i weithio gyda ni i ddarparu'r gwasanaeth gorau bosibl ar gyfer ein disgyblion. Mae croeso i chi gysylltu os ydych angen unrhyw wybodaeth bellach.

Yn gywir
**Mr Huw Robertson**
*Cadeirydd y Llywodraethwyr*

# Gwybodaeth am yr Ysgol

Ysgol uwchradd gyfrwng Cymraeg yw Ysgol Morgan Llwyd wedi'i lleoli yn ninas Wrecsam ac sy'n gwasanaethu dalgylch eang Sir Wrecsam. Fe'i hagorwyd yn 1964 gyda chriw bach o ddisgyblion, ac ers hynny, mae'r ysgol wedi mynd o nerth i nerth gan symud i safle newydd yn y flwyddyn 2000. Erbyn hyn mae 851 o ddisgyblion ar ein cofrestr ac 83 yn y chweched dosbarth. Daw ein disgyblion o'r ddinas ei hun, y pentrefi cyfagos ac o ardal wledig Dyffryn Ceiriog. Ysgol Morgan Llwyd yw unig ysgol uwchradd Gymraeg y Sir ac un o'r ddwy ysgol yn unig sydd â Chweched Dosbarth.

Ymfalchïwn yn ein traddodiad o lwyddiant academaidd ein disgyblion a'u llwyddiannau ymhob rhan o fywyd allgyrsiol yr ysgol.

Ein gweledigaeth yw sicrhau fod Ysgol Morgan Llwyd yn ysgol ofalgar sydd yn datblygu dysgwyr uchelgeisiol a galluog, mewn awyrgylch ble mae pawb yn hapus, yn ddiogel ac yn awyddus i ddysgu.

## Gwybodaeth am yr Adran Dylunio a Thechnoleg

**Mae pedwar athro/wes yn rhan o'r Adran lwyddiannus hon yn ogystal a Thechnegydd llawn amser. Dan arweiniad y Pennaeth Adran, Mrs Jessica Evans,  maent yn sicrhau bod Dylunio a Thechnoleg yn cael ei addysgu i bob disgybl ym mlynyddoedd 7-9 gan roi blas o drawstoriad o agweddau'r pwnc. Yn CA4 cynigir TGAU mewn Dylunio Cynnyrch, Adeiladwaith, Peirianneg, Arlwyo, Tecstilau a Iechyd a Gofal. Yn CA5 cynigir Dylunio Cynnyrch a Iechyd a Gofal. Dim ond eleni mae'r adran wedi dechrau cynnig Peirianneg, ac oherwydd poblogrwydd y cwrs hwn, a'r cyrsiau eraill, yn ogystal a'r twf yn niferoedd yr ysgol, rydym yn chwilio am aelod arall i'r adran. Mae gan yr Adran adnoddau braf sy'n cynnwys dau weithdy a dwy ystafell ddysgu ar y llawr gwaelod ac ystafell goginio, tecstil a dysgu ar y llawr uchaf. Mae gan yr Adran ei hoffer TGCH ei hun yn ogystal a mynediad i adnoddau yr ysgol.**
**Mae'r adran yn flaengar yn ei gwaith gyda chyflogwyr lleol ac wedi mwynhau sawl llwyddiant diweddar, er enghraifft yng nghystadleuaeth First Lego League Challenge a chystadleuaeth C+M Transport. Ar hyn o bryd, mae myfyrwraig STEM o MIT (America) yn gweithio efo'r adran.**








YSGOL MORGAN LLWYD
Ym mhob llafur y mae elw

# Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

Prif ddyletswydd Athro / Athrawes DT yw addysgu Technoleg i ddisgyblion yr ysgol. Bydd yn gweithio o fewn yr Adran Dechnoleg ac yn atebol i bennaeth yr adran. Gan mai swydd ychwanegol yw hon yn hytrach na swydd yn lle aelod presennol o'r adran, mae hyblygrwydd i'w gael o ran maes arbenigo a pha wersi TGAU fydd yr ymgeisydd yn eu dysgu.
Penodir yn unol ag amodau cyflogaeth cyfredol athrawon ysgol sydd wedi'u cynnwys yn Nogfen Tâl ac Amodau Athrawon Ysgol, a'r safonau proffesiynol newydd ar gyfer athrawon (Cymru).

### Dysgu ac Addysgu

- Cynllunio ac addysgu gwersi i'r dosbarthiadau dan eu gofal yn unol a manylebau CBAC, cynlluniau gwaith adran a pholisïau ysgol gyfan.
- Asesu, monitro, cofnodi ac adrodd ar anghenion dysgu, cynnydd a chyflawniadau disgyblion penod-edig.
- Cymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer paratoi disgyblion ar gyfer arholiadau allanol.
- Paratoi dysgu cyfunol a dysgu o bell yn ôl yr angen.
- Cynnig arweiniad i gymorthyddion yn y gwersi.

### Cyfrifoldebau Ysgol Gyfan

- Cyfrannu at ddatblygu, gweithredu a gwerthuso polisïau, arferion a chynlluniau'r ysgol.
- Gweithio gydag eraill ar ddatblygiad y cwricwlwm, yn benodol felly Cwricwlwm i Gymru
- Cydweithio i sicrhau lles a llwyddiant pob disgybl yn yr ysgol.

### Iechyd a Diogelwch

- Hyrwyddo diogelwch a lles disgyblion gan weithredu a chyfrannu at bolisiau diogelwch yr adran.
- Cynnal trefn a disgyblaeth dda ymhlith disgyblion.

### Datblygiad Proffesiynol

- Cymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer gwerthuso ac adolygu eu perfformiad eu hunain a, lle bo hyn-ny'n briodol, perfformiad athrawon a staff cymorth eraill gan gynnwys sefydlu.
- Cymryd rhan mewn hyfforddiant ysgol gyfan yn unol a chalendr yr ysgol

### Cyfathrebu a chydweithio

- Cyfathrebu â disgyblion, rhieni a gofalwyr.
- Cydweithio a gweithio gyda chydweithwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill yn yr ysgol a thu hwnt.

Er y cymerir pob gofal i egluro prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd, ni fydd pob tasg unigol wedi ei rhestru. Disgwylir i staff gytuno i gais rhesymol gan reolwyr i ymgymryd â thasg o lefel gyfatebol sydd heb ei rhestru yn y swydd ddisgrifiad hwn.

# Manyleb Person

Athro/wes Dylunio a Thechnoleg

| Hyfforddiant a phrofiad | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Hanfodol | Dymunol | Cais | Cyfweliad | Gwers |
| 1 | Athro / athrawes gymwysedig i ddysgu disgyblion uwchradd hyd at lefel TGAU mewn maes DT | Gallu i ddysgu Lefel A yn y maes DT | √ | | |
| 2 | Gradd anrhydedd dda mewn maes perthnasol | Hyfforddiant perthnasol | √ | | |
| 3 | Profiad o weithio a disgyblion o bob gallu | Profiad o ddysgu disgyblion uwchradd | √ | √ | |
| 4 | Profiad o gydweithio yn effeithiol fel aelod o dîm | | √ | √ | |

| Gallu a Rhinweddau Personol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Hanfodol | Dymunol | Cais | Cyfweliad | Gwers |
| 1 | Dealltwriaeth o ddatblygiadau diweddar mewn addysg, yn enwedig ym maes Technoleg | Dealltwriaeth o'r Cod ADY newydd | √ | √ | |
| 2 | Gallu da i weithio fel rhan o dîm a chyfathrebu ag eraill | Ethos waith broffesiynol a digon o hiwmor | √ | √ | |
| 3 | Dealltwriaeth o nodweddion addysgu ardderchog | Gallu da i werthuso perfformiad a sicrhau datblygiad | √ | √ | √ |
| 4 | Sgiliau TGCH da; i gyfathrebu, cofnodi ac addysgu | Dealltwriaeth o feddalwedd perthnasol i'r pwnc | √ | | √ |
| 5 | Brwdfrydedd, dyhead ac angerdd at ddysgu ac addysgu | Gallu i gymell ac ysbrydoli disgyblion | √ | √ | √ |